

## **Datganiad o Anghenion**

### **Cyflwyniad**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn i awdurdodau lleol greu 'Datganiad o Anghenion' yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion a gynhaliwyd i lywio'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai.

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r galw cyfredol a'r dyfodol ar gyfer atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai yn y sir, a sut bydd anghenion statudol a nodwyd yn cael eu cyflawni drwy gyflawni dyletswyddau statudol.

### **Datblygu Datganiad o Anghenion**

Mae Asesiad o Anghenion cynhwysfawr yn cael ei gynnal bob 4 blynedd, gydag adolygiad llai manwl bob 2 flynedd. Mae'n defnyddio gwahanol ddata gan gynnwys data gan y rhai sy'n datgan eu bod yn ddigartref, gwybodaeth am Lwybrau ac Allbynnau a thystiolaeth anecdotaidd ar fylchau mewn gwasanaethau. Casglir data hefyd drwy ymgynghoriadau â phartneriaid, budd-ddeiliad a defnyddwyr gwasanaeth wrth greu'r Asesiad o Anghenion, y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai a'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.

Mae'r Datganiad o Anghenion hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion ac wedi'i lywio gan yr Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft Rhaglen Cymorth Tai Conwy.

### **Prif Ganfyddiadau**

Mae cysylltiad rhwng digartrefedd a thrawma, gyda chyfran uchel o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd wedi profi trawma pan oeddent yn blentyn. Mae ffactorau cymdeithasol fel teulu'n chwalu, salwch meddwl, cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a diffyg system gymorth i gyd yn cyfrannu at ddigartrefedd ac yn gysylltiedig â'i gilydd, fel y mae tloidi.

Mae'r dystiolaeth o'r Asesiad o Anghenion yn nodi y bydd blaenoriaethau Conwy ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn canolbwyntio ar gynyddu darpariaeth gwasanaethau ar gyfer:

- Pobl â phroblemau iechyd meddwl, problemau camddefnyddio sylweddau, ymddygiad troseddol ac anghenion cymhleth
- Pobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig neu drais rhywiol.
- Pobl ifanc

Mae 'anghenion cymhleth' yn anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol parhaus a chydgyssylltiedig, sy'n effeithio ar fywyd unigolyn a'i allu i weithredu mewn cymdeithas, ac yn cynnwys:

- Anghenion iechyd meddyliol, seicolegol, emosiynol neu gorfforol
- Dibyniaeth ar gyffuriau a/neu alcohol
- Cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol

- Profiad o gam-drin neu drais domestig

Mae angen lefel uwch o gymorth ar bobl ag anghenion cymhleth sydd y tu hwnt i'r cymorth y gall gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai ei ddarparu, ac mae angen cymorth gan o leiaf un gwasanaeth arall. Mae fel arfer o ganlyniad i gyfuniad o anghenion.

### **Galw Cyfredol**

Mae cyfran y bobl sy'n gwneud cais digartrefedd wedi cynyddu, yn dilyn y dull 'everyone in' a dileu'r gofyniad i gymhwyso'r asesiad o anghenion sydd yn flaenoriaeth. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn niferoedd llwyth achosion y Swyddog Atal Digartrefedd, newid yn y galw am y gwasanaeth a galw uchel am dai fforddiadwy.

Mae'r newidiadau amlwg yn y galw'n cynnwys cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn sgil teuluoedd yn chwalu, merched ifanc sy'n feichiog / pobl ifanc â phlant a phobl ifanc sy'n gadael gofal.

Mae cynnydd wedi bod yn nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth, sydd wedi cael effaith ar yr amser a dreulir yn cefnogi unigolion. Mae angen cryfhau trefniadau gwaith partneriaeth gyda gwasanaethau eraill er mwyn sicrhau bod modd bodloni anghenion cymorth. Mae cynnydd hefyd wedi bod yn nifer y bobl sy'n profi gorbyder ac iselder, gyda rhai pobl yn cael trafferth cymdeithasu o ganlyniad i'r pandemig.

Yn ogystal â hynny, mae cynnydd wedi bod yn nifer y bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau, ymddygiad troseddu a phobl ag anghenion cymhleth. Mae angen gwaith amlasiantaeth er mwyn bodloni'r anghenion cymorth hyn.

Mae'r defnydd o lety gwely a brecwast / gwesty wedi cynyddu'n sylweddol yn y ddwy flynedd diwethaf. Er bod gwahanol fathau o lety dros dro wedi'u canfod i fodloni'r galw, bu adegau pan nad oedd unrhyw leoliadau ar gael yn y sir. Mae nifer o bobl yn treulio cyfnodau hir mewn llety dros dro ac mae angen cynnig cefnogaeth well iddynt, a fydd yn parhau i fod ar gael wrth iddynt symud i fathau eraill o lety.

Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd sydd mewn llety dros dro yn cael rhyw fath o fudd-daliadau ac nid ydynt yn gallu fforddio eiddo yn y Sector Rhentu Preifat. Mae'r sefyllfa'n waeth ar gyfer pobl ifanc sengl sy'n derbyn budd-daliadau, a oedd yn aml iawn yn cynnwys arian wedi'i dynnu o'r cyfanswm i ad-dalu benthyciadau blaenorol, gan eu gadael mewn sefyllfa lle na fyddai hyd yn oed tai cymdeithasol, pe baent ar gael, yn fforddiadwy.

Mae angen darparu mathau eraill o lety dros dro i leihau'r defnydd o lety gwely a brecwast, yn sgil pryderon am gynaliadwyedd a chostau. Yn y bôn,

mae angen rhagor o opsiynau tai fforddiadwy er mwyn lleihau'r defnydd o lety dros dro.

### **Galw yn y dyfodol**

Rhagwelir y bydd digartrefedd yn cynyddu yn y tymor byr oherwydd effaith y pandemig a'r sefyllfa economaidd gyfredol.

Bydd hyn yn golygu galw parhaus am lety dros dro, gyda phobl yn byw ynddo am gyfnodau hirach nes bod mwy o gyflenwad o dai fforddiadwy ar gael. Mae'r prinder llety fforddiadwy hefyd yn cael effaith ar bobl sy'n byw mewn llety â chymorth, sy'n golygu bod nifer o bobl yn parhau i fyw mewn llety â chymorth er nad oes arnynt angen y lefel hon o gefnogaeth mwyach. Mae angen rhagor o lety symud ymlaen i'w galluogi i gymryd y cam nesaf ar yr adeg iawn iddyn nhw, i greu lle mewn lleoliadau llety â chymorth i eraill sydd ei angen.

Mae angen data ychwanegol am anghenion pobl i nodi bylchau yn y gwasanaeth presennol a llywio'r broses o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau i'r dyfodol.

Mae angen arbennig i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy ar gyfer pobl sengl a chyplau, o ystyried effaith y cyfyngiad i fudd-dal ar y gyfradd ystafell sengl yn unig a'r stoc tai cymdeithasol cyfyngedig iawn ar gyfer y grŵp hwn.

Mae rhenti'r Sector Rhentu Preifat yn uchel, gyda diffyg enfawr rhyngddynt hwy a chyfradd y Lwfans Tai Lleol. Mae hyn yn golygu nad yw'r Sector Rhentu Preifat yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o aelwydydd sy'n cysylltu â Datrysiadau Tai Conwy, ac mae wedi lleihau'r dewisiadau ar gyfer atal neu leddfu digartrefedd trwy ddefnyddio'r Sector Rhentu Preifat.

O ganlyniad i wahanol ffactorau gall y Sector Rhentu Preifat yn y sir fod yn lleihau, gydag eiddo'n cael eu gwerthu/eu defnyddio at ddibenion eraill.

Daw pwysau ar y stoc dai o ddefnyddio eiddo fel cartrefi gwyliau ac ail gartrefi, a all effeithio ar argaeledd cyffredinol eiddo ar gyfer defnydd lleol, preswyl a gall gynyddu prisiau tai mewn ardal. Fodd bynnag, mae twristiaeth yn sector allweddol yn yr economi leol.

Gall yr argyfwng costau byw cyfredol arwain at gynnydd mewn adfeddiannu morgais. Gall rhai aelwydydd a fyddai wedi gallu fforddio llety yn y Sector Rhentu Preifat yn flaenorol wynebu digartrefedd.

Byddai cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ymestyn yr opsiynau tai i rai aelwydydd.

Mae nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn debygol o gynyddu. Y salwch meddwl fwyaf cyffredin yw gorbryder ac iselder. Byddai lleihau unigrwydd ac unigedd yn dod â llawer o fuddion i iechyd a lles pobl ac yn lleihau'r angen am wasanaethau statudol.

Mae angen dewisiadau digonol ar gyfer cartrefu dioddefwyr trais a cham-drin domestig sydd ag anghenion gofal a chymorth ychwanegol sydd angen gofal

staff 24 awr y dydd, yn ogystal â chymorth i aelodau o'r teulu sy'n dyst i gamdriniaeth.

Mae angen atal pobl rhag dod yn ddigartref ac i unrhyw brofiad o ddigartrefedd fod am gyfnod mor fyr â phosibl. Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar fod â digon o dai fforddiadwy o'r math cywir i fodloni'r galw. Mae hefyd yn gofyn am y gallu i ymyrryd yn gynnar a'r gallu i ddarparu'r cymorth priodol i bob unigolyn cyn hired ag y bydd angen arnynt. Mae angen trefniadau gweithio mewn partneriaeth cryf er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus.

### **Camau gweithredu i ateb heriau'r galw**

Nodwyd y camau canlynol i fodloni'r galw i'r dyfodol a goresgyn heriau:

- Rhoi'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ar waith, gan ganolbwyntio ar atal digartrefedd yn gynnar ac yn sylfaenol fel y flaenoriaeth a symud i ffwrdd oddi wrth wariant aciwt ac atal trydyddol (dull ymyrraeth) drwy dull amlasiantaethol
- Adolygu holl wasanaethau Rhaglen Grant Cymorth Tai presennol i sicrhau bod darpariaeth yn bodloni newidiadau yn anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac ystyried:
  - comisiynu gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl sydd ag anghenion lefel uwch a/neu gymhleth, er mwyn eu galluogi i gael gwasanaethau priodol ac amserol
  - yr angen am lety â chymorth lefel is, hirdymor ar gyfer pobl na fyddant yn gallu cynnal eu llety eu hunain
  - yr angen am lety â chymorth arbenigol i fodloni anghenion pobl ifanc ddi-amddiffyn, unigolion LHDTTC+ a rhiant a babi
  - yr angen am dŷ gwlyb, lle gellir defnyddio dull lleihau niwed
- Adolygu'r llwybr i sicrhau bod systemau prydlon ar waith er mwyn ymgysylltu â'r rhai sy'n gadael y sefydliad diogel ar y cyfle cyntaf posibl
- Adolygu'r gost o lety â chymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r effaith ar bobl sy'n gweithio. Gwneud y defnydd gorau o gyllid Llywodraeth Cymru i wella ansawdd llety dros dro, gan geisio symud i ffwrdd o ddefnyddio llety gwely a brechwast/gwestai a defnyddio mwy o gartrefi dros dro hunangynhwysol, lle mae angen llety dros dro
- Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth, gan sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb sydd eu hangen
- Sicrhau bod cymorth priodol ar gael i bobl sydd mewn llety gwely a brechwast
- Sicrhau parhad darpariaeth cymorth pan fydd pobl yn symud o un math o lety i fath arall
- Gwellu'r broses o gasglu data mewn perthynas â chofnodi anghenion pobl a nodi bylchau mewn gwasanaethau
- Adolygu dyraniadau tai cymdeithasol i alluogi pobl sy'n byw mewn tai â chymorth sy'n barod i symud ymlaen wneud hynny. Bydd hyn yn rhyddhau lle mewn llety â chymorth i bobl eraill fyddai'n elwa ohono

- Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Diweddarw Prosbectws yr Awdurdod Lleol yn unol â newidiadau mewn anghenion i sicrhau bod datblygiad y llety priodol yn cael ei flaenoriaethu

### **Gwasanaethau Rhanbarthol**

Mae Canllawiau'r Grant Cymorth Tai'n nodi mai rôl y Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol yw darparu fforwm ar gyfer cydweithio. Mae'r canllawiau'n amlinellu gwaith rhanbarthol fel:

- Datblygu gwasanaethau arbenigol lle nad oes màs critigol yn lleol
- Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle gellir ei gyfiawnhau yn ôl arbedion maint
- Cyflwyno gwelliannau a gyflawnir trwy gydweithio
- Cydweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill

Mae blaenoriaethau presennol gwaith rhanbarthol yn cynnwys:

- Gwasanaeth Trais Domestig Annibynnol Rhanbarthol
- Darparu offer gwella diogelwch i gefnogi Prosiect Cronni Rhanbarthol gwasanaethau CD (o fis Ebrill 2023)
- Gweithio gyda'r rhaglen genedlaethol ar gyfer datblygu'r gweithlu
- Cryfhau cysylltiadau gyda gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Ystyried cynlluniau atal cam-drin domestig
- Comisiynu hyfforddiant sy'n berthnasol i wasanaethau'r Grant Cymorth Tai